

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Megan Angharad Hunter



Bywgraffiad

Mae Megan yn dod o Ddyffryn Nantlle ac wedi astudio Cymraeg ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei gwaith wedi cael ei gyhoeddi yn Y Stamp ac O'r Pedwar Gwynt, ac yn 2020 enillodd Ysgoloriaeth Awdur Ifanc Llenyddiaeth Cymru. Yn 2021, hi oedd prif enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, gyda'i nofel gyntaf tu ôl i'r awyr (Y Lolfa).

Nofel wyddonias i blant 8-12 oed yw Astronot yn yr Atig, ei gwaith diweddaraf.



Crynodeb:

Mae Rosie Alaw, 11 oed, yn dod ar draws llong ofod ar y llwybr ar ei ffordd adre o'r ysgol. Mae hi'n methu credu ei lwc, oherwydd mae hi wedi gwirioni ar bopeth sy'n ymwneud â'r gofod a'r sêr a'r galaethau a'r planedau sydd y tu hwnt i'w dychymyg!

Pan mae Astronot a Ffred yn gofyn am help Rosie, mae hi'n mynd ar daith arallfydol anhygoel! Ond mae'n mynd ar daith i ddarganfod hi ei hun hefyd, a rhaid iddi fod yn ddewr a goresgyn nifer o broblemau.

Pa ddylanwadau ac atgofion oedd yn sefyll allan yn dy blentyndod?

...Mae'n gwyliau ni i'r UDA i ymweld â theulu Dad hefyd yn sefyll allan. Roedd y cyffro o'n i'n ei deimlo wrth deithio ar draws Môr yr Iwerydd yn ddigyffelyb gan ein bod ni ar fin gweld teulu (a chŵn!) nad oedden ni'n eu gweld yn aml iawn. Mae popeth am yr atgofion hynny'n teimlo'n hudolus i mi; treulio wythnosau hir o hafau poeth yn Cincinnati a Portsmouth yn bwyta frozen yogurt a phitsas, gwyllo gemau baseball, rhedeg lemonade stands, cael water balloon fights a sleepovers efo'n cefndryd a'n cyfnitherod cyn troi at vapiro mewn cae swings wedi'n hamgylchynu gan fireflies yn ein harddegau. Mi o'n i'n rhamanteiddio'r UDA yn ystod fy mhentyndod a fy arddegau, ond dyna le'r oedd fy unig Nain a Taid yn byw...

Fel person ifanc, pwy neu beth wnaeth ddylanwadu arnat?

...Gesh i fy swyno gan awduron Americanaidd poblogaidd fel John Green, ac o'n i'n cael trafferth dod o hyd i lyfrau Cymraeg efo lleisiau

ifanc o'n i'n gallu uniaethu efo nhw yn yr un modd. Felly, dwi'n siŵr mai'r awch hwnnw am lyfrau Cymraeg 'YA' a'm sbardunodd i ddechrau sgwennu tu ôl i'r awyr yn fy arddegau. Ond dwi'n cofio darllen O! tyn y gorchudd ac Un Nos Ola Leuad yn ystod fy arddegau hwyr a gwirioni'n llwyr efo nhw. Dwi'n meddwl mai darllen y ddwy nofel honno wnaeth fy sadio i a'm hatgoffa fod yr arlwy o lenyddiaeth sydd ar gael yn y Gymraeg yn gwbl ddihafal, a dwi mor, mor ddiolchgar am hynny.

O ran y bobl a ddylanwadodd arna i, mae'n rhaid i mi sôn am athrawon Adran y Gymraeg, Ysgol Dyffryn Nantlle. Mi oedden nhw'n fy annog yn barhaol i gystadlu mewn Eisteddfodau lleol er mwyn datblygu fy nghrefft.

Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er plaser?

Sichau fod 'na amrywiaeth eang o lyfrau ar gael sy'n adlewyrchu amrywiaeth o leisiau a phrofiadau. Mae pob plentyn a pherson ifanc yn ysu am lais neu gymeriad maen nhw'n gallu uniaethu efo nhw.

Y Lolfa

www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru